ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	5 Mawrth 2019
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Polisi Defnydd Arfaethedig Cerbyd Hacni

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Gofyn i Aelodau adolygu'r Polisi Defnydd Arfaethedig Cerbyd Hacni, fel y bo angen bob tair blynedd.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Polisi Defnydd Arfaethedig yn ddogfen sydd yn sôn sut gall y Cyngor reoli'r defnydd a gorfodi trwyddedau cerbydau hacni trwyddedig Sir Ddinbych a gymeradwyir yn y Sir, ond sydd yn gweithredu'n bennaf y tu allan i ardal y Cyngor.

3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 Yn 2015, cymeradwyodd Aelodau i Fabwysiadu Polisi Defnydd Arfaethedig Panel Technegol Trwyddedu Cyfarwyddwr Gwarchod y Cyhoedd Cymru, mewn cysylltiad â Cherbydau Hacni.

3.2 Mae'r polisi yn ystyried a ydyw ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni yn bwriadu i'w cerbyd, os caiff ei drwyddedu, gael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer archebion cerbydau hurio preifat y tu allan i'r Sir. Yn ogystal, mae'r polisi yn gwirio os ydi perchennog cerbyd hacni yn bwriadu gweithredu o fewn y Sir neu os bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at waith llogi preifat y tu allan i'r Sir.

3.3 Caiff y polisi ei adolygu bob tair blynedd.

3.4 Mae swyddogion wedi adolygu'r Polisi Defnydd Arfaethedig ac yn credu ei fod yn addas i'r diben ac felly nid ydynt yn cynnig unrhyw newidiadau i'r Polisi.

3.5

ARGYMHELLION

Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn awdurdodi Swyddogion i adolygu'r Polisi mewn tair blynedd arall.